

Awst 21ain: DAU GYHOEDDIAD PWYSIG

CASGLU DILLAD I FFOADURIAID

Daeth yn amser casglu dillad i ffoaduriaid unwaith eto, ac mae dipyn o frys. Mae'n braf gwybod, o brofiad y gorffennol, ein bod yn apelio at bobl hael a dyngarol.

Bydd lorri St Vincent de Paul yn gadael am Wlad Groeg ddiwedd Medi, felly bydd rhaid i ni ddanfôn dillad atyn nhw yng Ngogledd Iwerddon **ar FEDI 18fed**.

Rydyn ni'n defnyddio'r elusen hon am ei bod mor effeithiol a dibynadwy. Mae Lisa Devlin, sydd mewn cysylltiad rheolaidd â Carys Davies, wedi treulio chwe wythnos yng Ngwlad Groeg dros yr haf ac yn adnabod amodau enbyd y gwerysilloedd yn dda. Mae bywyd yn galed, a'r tir yn arw, sy'n peri i ddillad, ac esgidiau yn arbennig, dreulio'n gyflym.

Y tro hwn, rydyn ni'n casglu dillad ac esgidiau cryf i bob oed, plant ac oedolion, a dillad babis. Mae galw mawr am esgidiau cryf i oedolion. Bydd angen i bopeth fod fel newydd, neu yn newydd. Wrth gwrs, mae croeso i chi gyfrannu arian, ac fe brynwn ni beth sydd ei angen.

Does dim angen didoli'r dillad, fe wnawn ni hynny. Gadewch y bagiau yn llofft y capel, neu ffoniwch Carys Davies - 07544 593820, neu Ann Dwynwen Davies - 07544 584526, ac fe drefnwn ni i'w casglu.

Cofiwch y dyddiad pwysig - **MEDI 18fed** - dyna pryd fydd y dillad yn gadael Cymru am Ballymena, Gogledd Iwerddon, ar ddechrau eu taith i Wlad Groeg. Yn union fel y tro diwethaf, bydd y lorri'n cael ei thracio bob cam o'r ffordd, ac fe gawn ni gadarnhâd bod y llwyth wedi cyrraedd yn ddiogel.

DARLITH YR ESGOB JOHN SPONG

Bydd Yr Esgob John Spong yn siarad yng Nghaerdydd ar wahoddiad Cristnogaeth 21 Nos Lun, Hydref 24ain.

Cynhelir y cyfarfod yng nghapel Salem, Treganna am 7:00p.m.

Bydd yn sgwrsio am y themâu yn ei lyfrau diweddar megis *Biblical Literalism - A Gentile Heresy*. Pris mynediad fydd £10 y pen, a medrwch brynu tocyn gan Geraint Rees neu Emlyn Davies.

Mae'n awdur toreithiog a phoblogaidd, ac yn siaradwr diddorol sy'n enwog am ei syniadau blaengar wrth ddehongli'r Ysgrythur a Christnogaeth mewn goleuni newydd, heriol. Os hoffech wybod rhagor am yr Esgob Spong ymlaen llaw, ymwelwch â: <http://www.johnshelby>